

# Ysgrifennu

Meddylwch:  
beth ydy  
**PWRPAS** yr  
ysgrifennu?

PERSONOL - e.e. darn o brofiad  
hunan-bortread

DYCHMYGUS - stori, dyddiadur, ymson

CYFLWYNO GWYBODAETH -  
e.e. adroddiad, adroddiad papur newydd,  
ysgrifennu am brofiad

MYNEGI BARN - e.e. barn am gymeriad,  
dadlau o blaid neu yn erbyn pwnc llosg

Meddylwch: pwy  
ydy'ch  
**CYNULLEIDFA?**

Oes angen defnyddio iaith safonol neu iaith  
lafar?

Oes angen defnyddio patrymau iaith arbennig?

e.e. \* Gwnaethpwyd arbrawf yn y wers heddiw.  
(*yn hytrach na - 'wnes i arbrawf yn y wers  
heddiw'*)

e.e. \* Patrymau iaith ar gyfer MYNEGI BARN:

- Yn fy marn i
- Credaf
- Mewn gwirionedd
- Yn gyntaf ... Yn ail ...
- Rydw i o blaid ... Rydw i'n erbyn ...
- Ar y naill law / Ar y llaw arall
- Cytunaf i'r carn / Anghytunaf yn llwyr

Meddylwch: pa  
**FFURF** i roi i'ch  
gwaith?

Bydd yr athro yn egluro pa ffurf neu fe ddywedir  
ar y daflen waith neu'r papur arholiad.

e.e. llythyr personol neu ffurfiol, adroddiad,  
erthygl, deialog, dyddiadur.

Ar ôl **GORFFEN**  
**cofiwch** . . .

Ddarllen eich gwaith 2 **WAITH**

- unwaith i weld os ydy o' n gwneud synnwyr
- yr ail dro i wirio sillafu ac atalnodi